**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

24 Mai 2018

Annwyl Gadeirydd,

Fel y gwyddoch, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig heddiw i'r aelodau ynglŷn â'r Fforwm Gweinidogion newydd ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Gan adeiladu ar drafodaethau cychwynnol Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) bydd y fforwm newydd yn rhoi'r cyfle i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu i'r broses o ddatblygu safbwynt negodi ar gyfer y DU.

Bydd rhai o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd, ynghyd â rhai o Weinidogion Llywodraeth yr Alban a swyddogion o wasanaeth sifil Gogledd Iwerddon, a bydd y cyfarfodydd yn bwydo trafodaethau Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE). Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i Rebecca Evans, yr Ysgrifennydd Tai ac Adfywio, fod yn Weinidog arweiniol ar gyfer y Fforwm Gweinidogion newydd, gan gydweithio â mi fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar y Gyd-bwyllgor y Gweinidogion yn barod.

Cynhelir cyfarfod cyntaf Fforwm y Gweinidogion yng Nghaeredin yn ddiweddarach heddiw, a bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn bresennol, a bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru aelodau ar ddatblygiadau a gwaith y Fforwm.

Rydym yn disgwyl y bydd y fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd. Gan fod pethau'n symud yn gyflym o ran y materion y bydd y fforwm yn ymdrin â nhw, ac o gofio natur gyfrinachol y trafodaethau, gallai fod yn fuddiol pe bai fy swyddogion yn gweithio gyda chlerc eich pwyllgor i sefydlu'r ffordd orau o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac aelodau'r pwyllgor, gan barchu cyfrinachedd y trafodaethau yr un pryd.

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.